# Adroddiad DASH: dysgu o'r arolwg digidol mewn treftadaeth cyntaf ledled y DU

14/10/2020




See all updates

Mae adroddiad yr arolwg Agweddau Digidol a Sgiliau ar gyfer Treftadaeth (DASH) yn cynnig cipolwg hanfodol ar sut y gall arweinwyr treftadaeth gefnogi eu staff, eu hymddiriedolwyr a'u gwirfoddolwyr.

| Atodiad | Maint |
|---|---|
| Digital Attitudes and Skills for Heritage (DASH) survey report 2020 | 1.92 MB |
| Adroddiad arolwg Agweddau Digidol a Sgiliau ar gyfer Treftadaeth (DASH) 2020 | 1.99 MB |

## Adroddiad DASH

Mae'r adroddiad newydd yma, a gyhoeddwyd heddiw, yn dwyn ynghyd yr ymatebion gan 4,120 o staff, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr sy'n gweithio mewn 281 o sefydliadau treftadaeth ledled y DU a gwblhaodd ein harolwg DASH.

Mae ei ganfyddiadau'n rhoi cipolwg diddorol iawn ar agweddau a sgiliau digidol pobl sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli yn y sector heddiw.

Gan ddefnyddio'r data, mae awduron yr adroddiad, Timmus Research Limited, yn cynnig cyfres o argymhellion i helpu sefydliadau treftadaeth i fynd i'r afael â digidol a'i ddefnyddio i ysgogi gwydnwch, arloesedd a menter. Mae llawer o waith dysgu i ni fel cyllidwr hefyd.

Lawrlwythwch yr adroddiad llawn ar frig y dudalen.




Sefydliadau treftadaeth a oedd yn cynrychioli ehangder y sector arolwg DASH

# Dau fewnweledlad cyflym

Dywedodd Josie Fraser, Pennaeth Polisi Digidol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol: "Mae'r adroddiad yn dangos bod treftadaeth yn ymwneud yn sylfaenol â phobl a diwylliant. Yn ystod cyfyngiadau cymud, mae'r rôl y gall digidol ei chwarae i gefnogi wedi dod yn bwysicach fyth i sefydliadau ei deall."

Rydym wedi tynnu sylw at ddau bwynt allweddol o'r adroddiad isod.

## Siaradwch â phobl am eu hanghenion

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffordd y mae gan gyflogeion, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr rwystrau, cymhellion ac anghenion gwahanol o ran digidol.

> “Dywed 46% o wirfoddolwyr nad ydynt byth yn trafod eu sgiliau digidol gydag eraill”

Er enghraifft, mae'r adroddiad yn disgrifio sut mae ymddiriedolwyr yn aml am wella strategaeth sefydliadol (ddigidol); gwirfoddolwyr yn aml yn cael eu hysgogi gan wella profiad yr ymwelydd; ac mae staff am gael eu galluogi'n fwy digidol ac effeithiol yn eu cyd-destun penodol."

**“Dywed 46% o wirfoddolwyr nad ydynt byth yn trafod eu sgiliau digidol gydag eraill”**

Felly, mae'n bwysig i sefydliad siarad â'i bobl cyn cychwyn ar strategaeth ddigidol.

Gall archwiliad sgiliau helpu sefydliad i nodi ei gryfderau, deall anghenion, gosod nodau a rheoli disgwyliadau. Mae arolwg DASH [ar gael o hyd i'w lawrlwytho at y diben yma].

Gallwch siarad â staff – gan gynnwys yn ystod recriwtio ac arfarnu – hefyd helpu sefydliadau i nodi sgiliau digidol nad ydynt yn ymwybodol ohonynt.

### Meddyliwch y tu hwnt i hyfforddiant ac adnoddau

Dywedodd llawer o'r rhai a oedd yn cymryd arolwg eu bod am gael cymorth i'w harfer digidol nad oedd yn gysylltiedig â hyfforddiant nac adnoddau.

**“Dim ond un o bob chwe aelod o staff y sector treftadaeth sy'n cael cyfle i rannu eu harfer digidol ag eraill.”**

Roeddent am gael amser i ymarfer sgiliau digidol, mentora gan gydweithwyr profiadol a'r cyfle i gyfnewid sgiliau a chydweithio ag eraill.

O fewn sefydliadau, gellid defnyddio hyrwyddwyr digidol i ddeall, cefnogi a grymuso cyd-ymddiriedolwyr a staff, gan deilwra eu hymatebion i anghenion penodol. Gellid creu cyfleoedd gwirfoddoli newydd sy'n canolbwyntio ar ddigidol hefyd.

> “Roeddent am gael amser i ymarfer sgiliau digidol, mentora gan gydweithwyr profiadol a'r cyfle i gyfnewid sgiliau a chydweithio ag eraill.”

Y tu allan iddo, gallai rhwydweithiau newydd fod yn allweddol: "gallai'r sector treftadaeth elwa mwy o greu cymunedau ymarfer is-sector a/neu ranbarthol sy'n cydnabod ac yn cefnogi amrywiaeth eang o sgiliau gwahanol."

### Darganfod mwy

Dysgwch lawer mwy am agweddau a sgiliau digidol staff, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr drwy droi at yr adroddiad llawn.

## Ar gyfer pwy mae’r adroddiad?

Bydd yr adroddiad yma a'i argymhellion yn ddiddorol i bawb sy'n gweithio yn y sector, ond mae’n hanfodol i arweinwyr ac aelodau'r bwrdd – y rhai sy'n gallu creu'r lle i ddigidol ddigwydd.

Un o'i argymhellion allweddol yw bod arweinwyr yn creu strategaeth neu gynllun gweithredu digidol. "Nid oes angen iddi fod yn broses hir, ffurfiol. Yn wir, yn well os yw'n ddogfen fyw sy'n canolbwyntio ar gamau bach, cyraeddadwy y gellir eu diweddaru wrth i chi symud ymlaen."

## Ein hymateb

Byddwn yn defnyddio canfyddiadau'r adroddiad i lywio ein menter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth, a gynlluniwyd i godi sgiliau digidol a hyder ar draws y sector. Mae hyfforddiant ac adnoddau eisoes ar gael, gan gynnwys ymatebion i sawl maes angen a nodwyd drwy arolwg DASH.

Bydd cam nesaf ein gwaith yn canolbwyntio ar ddefnyddio digidol i gynyddu menter a gwydnwch, gan gynnwys drwy greu rhwydweithiau ymarfer fel yr argymhellir yn yr adroddiad yma. Cyhoeddir y manylion cyn bo hir.



## ddordeb hefyd mewn ...



skills projects

Minder Kaur Athwal, ymddiriedolwr yn y Digital Skills for Heritage Trust Network. Credyd: Sarah Hayes.

### Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth




## Agweddau Digidol a Sgiliau ar gyfer Treftadaeth: yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu hyd yma